EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## EBRILL 2024

## GAIR GAN Y GWEINIDOG : *Beth bynnag sy'n wir ac i'w edmygu*

Philipiaid 4: 8 a 9

8 *Ac un peth arall i gloi, ffrindiau: meddyliwch bob amser am beth sy'n wir ac i'w edmygu –*
*am beth sy'n iawn i'w wneud, yn bur, yn garedig ac yn anrhydeddus – hynny ydy, popeth da ac*
*unrhyw beth sy'n haeddu ei ganmol*. 9 *Gwnewch y pethau hynny dych chi wedi'u dysgu a'u*
*gweld a'u clywed gen i. A bydd y Duw sy'n rhoi ei heddwch gyda chi.*

### DISGWYLIADAU

Ym mhob oes, mae gan bobl y parch mwyaf i'r rhai sy'n byw bywydau gonest gan ymroi i'r pethau gorau. Yn y geiriau yma o anogaeth i'r Cristnogion yn Philipi, mae Paul yn dangos y fath o rinweddau ddylai berthyn i ddilynwyr Crist - bod yn eirwir, yn garedig ac yn anrhydeddus. Ond mae'r geiriau'n berthnasol yn ehangach na dim ond yr Eglwys. Mae gennym ddisgwyliadau digon teg am y ffordd y dylai pobl ymddwyn ym mywyd cyhoeddus Cymru ac yn San Steffan y dyddiau hyn. Rydym yn gresynnu at y math o ymddygiad a welwn gan rai o'r bobl sydd wedi eu hethol a'u cyflogi i wasanaethu eu hetholwyr am ein bod yn gwybod bod na ffordd well o ymddwyn yn bosib. Diolch byth, mae na wleidyddion da mewn nifer o wahanol bleidiau sy'n tystio i'r ffordd well honno.

### PARCH



Wrth i Mark Drakeford ildio'r awennau fel prifweinidog Cymru, dwi'n siwr y bydd nifer ohonom yn ddiolchgar iddo am ei wasanaeth ffyddlon, ac yn enwedig am ei arweiniad i ni i gyd yn ystod *Cyfnod y Covid*. Mae'r dywediad *'heb ei fai, heb ei eni'* yn wir am bob un ohonom, boed yn wleidydd neu'n ddinesydd cyffredin ond yr argraff a roddodd Mark Drakeford i ni oedd bod gonestrwydd a gofalgarwch a pharch at Gymru a'r Gymraeg yn sail i'w fywyd a'i yrfa wleidyddol. Bydd Vaughan Gething yn camu i sgidiau go fawr wrth ei olynu. Beth bynnag yw'r doniau fydd ganddo at y gwaith, gobeithiwn y bydd gonestrwydd, gofalgarwch a Chymru a'r Gymraeg yn cael yr un parch ganddo yntau hefyd yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

### CHI

Pwy tybed fydd yn camu i sgidiau (bach!) y gweinidog yn ystod y tri mis nesa? Wel yr ateb ydy – pawb ohonoch! Mae 'na gyfeillion caredig wedi camu i'r adwy i arwain y gwasanaethau a diolch ymlaen llaw i chi i gyd am eich gweinidogaeth i braidd Emaus. Ond mae cyfraniad y gweddill ohonoch yr un mor bwysig hefyd. Os ydych mewn iechyd, da chi, byddwch yn ffyddlon wrth ddod i'r oedfaon, daliwch ati i ffonio'ch gilydd neu bicied i weld eich cydaelodau er mwyn cadw cysylltiad ac os y medrwch chi daro eich enw ar un o'r rotas i groesawu wrth y drws, i baratoi'r cymun neu i ddarllen mewn oedfaon, gwnewch hynny'n llawen. A gweddïwch y bydd y cyfnod yma nid yn unig yn dymor o adnewyddiad i fi ond y bydd yn ennyn brwdfrydedd newydd ynoch chi fel aelodau hefyd. Gwn y bydd Crist drwy'r Ysbryd Glân gyda chi bob cam o'r daith yn eich arwain a'ch annog felly dwi ddim yn pryderu.

*"Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu, trwy'r gallu sydd ar waith ynom ni, iddo ef y bo'r gogoniant yn yr eglwys ac yng Nghrist Iesu, o genhedlaeth i genhedlaeth, byth bythoedd! Amen."*

Casi M Jones

## OEDFAON A CHYFARFODYDD EBRILL

**Bore Sadwrn, 6 Ebrill, 10am tan 12pm**
*Bore Coffi Masnach Deg.*

**Bore Sul, 7 Ebrill**
*Oedfa gymun dan arweiniad y Parchg Peter Cutts.*


**Pnawn Ebrill, 9 Ebrill, 3pm tan 4pm**
*Cyfarfod 'paned a sgwrs'.*

**Bore Sul, 14 Ebrill**
*Oedfa pob oed dan arweiniad Hannah Smethurst.*

**Bore Sul, 21 Ebrill**
*Oedfa dan arweiniad y Parchg Robert Capon.*

**Bore Sul, 28 Ebrill**
*Oedfa dan arweiniad Dr Catrin Elis Williams.*



**LLUNIAU YCHWANEGOL I'R RHAI A YMDDANGOSODD YN RHIFYN MAWRTH 0'R NEGESYDD**

*(LLuniau gan Catrin Evans)*














**CYD-DIGWYDDIAD I STORI'R PENBLWYDD !!** - *Ar yr union ddiwrnod yr oeddwn i'n dathlu fy mhenblwydd yn 28 oed - fe gafodd Casi ei geni.* *- Eirwyn Morris*

# Y PASG YN RWSIA


Mae **Pasg** Cymru a **Pascha** Rwsia ill dau yn dathlu'r Atgyfodiad. Ond mae traddodiad y dathlu ac hyd yn oed dyddiadau'r wyl yn amrywio'n sylweddol. Gan fod Eglwys Uniongred Rwsia yn dal i ddilyn yr hen Galendr Iwl mae ei Nadolig hithau, er enghraifft, yn digwydd ar Ionawr 7. Mae dyddiad symudol y Pasg yn cymhlethu'r sefyllfa. Weithiau mae ein Pasg Gorllewinol yn cyd-fynd gyda **Pascha** – fel yn 2017, and gan amlaf mae'r wyl yn Rwsia yn dilyn ar un o'r Suliau canlynol. Ac eleni rhaid i Rwsia ddisgwyl tan 2 Mai cyn dathlu'r wyl.

Y traddodiad yn y gorllewin yw cynnal gwasanaeth wedi toriad gwawr ar Sul y Pasg. Yn Rwsia bydd y credinwyr yn ymgynnull yn eu heglwysi tywyll ar noswyl y Pasg, a'r fagddu'n cynrychioli byd pechadurus. Am hanner nos bydd y clychau'n canu ac un cannwyll olau yn ymddangos i gydnabod atgyfodiad Crist. Wedyn bydd yr offeiriaid yn cario'r golau drwy'r eglwys er mwyn cynnau canhwyllau'r credinwyr ac i brofi bod goleuni wedi dod i'r byd i wasgaru'r tywyllwch.

Dyma ddechrau ar y llafarganu cyfoethog sy'n nodweddiadol o eglwysi Rwsia. Cewch flas ar y gerddoriaeth wrth fynd i **BBC Sounds** -- *How to Listen: Russian Orthodox Easter Music* -- sy'n trafod Agorawd Rimsky-Korsakov **Yr Wyl Ddisglair**. Mae offeren y Pasg yn para tan y bore ac wedyn bydd y credinwyr yn ceisio cario eu canhwyllau adref yn ofalus er mwyn cadw fflam y ffydd ynghynn ar eu haelwydydd.

Roedd y ddefod hon yn fyw yng nhof un o'r bechgyn ifanc aeth o waith alcam Ponatardawe i hybu'r diwydiant ym Mosgo ar gais y llywodraeth yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ac wrth iddo adrodd yr hanes wrthyf rhaid cyfaddef iddo gofio'n glir hefyd am y sbort a sbri gafodd llanciau direidus y ddinas wrth geisio chwythu'r canhwyllau allan!

Mae gwledda hefyd yn rhan hanfodol o ddathlu'r Pascha, a'r bwydydd yn profi fod 'Ympryd Mawr' y Grawys ar ben a bod y menyn, llaeth ac wyau oedd gynt yn waherddedig yn dderbyniol unwaith eto. Mae dau beth yn angenrheidiol yn y wledd: y *Cwlitsh (Torth y Pasg)* a wyau lliwgar y Pasg. Coch – fel arwydd o waed Crist – oedd y lliw traddodiadol a geid wrth ferwi'r wyau gyda phlisgyn nionod. Erbyn hyn mae pob math o liw i'w weld ar y wyau a byddai'r teulu Tsarïaidd, wrth gwrs, yn disgwyl anrheg o un o wyau porslen drudfawr Fabergė.



W. Gareth Jones

*RHAI ENGREIFFTIAU O WYAU FABERGE*



# DATHLU MASNACH DEG A CHEFNOGI ‘BIG BREW’ TRANSFORM TRADE

Roedd festri Emaus unwaith eto yn llawn bwrlwm ym more coffi mis Mawrth, pan ddaeth nifer dda o bobl i gefnogi ein gweithgaredd i ddathlu Masnach Deg, ar y cyd â Grwp Masnach Deg Bangor. Gobeithio iddynt ddysgu mwy am rai o gynhyrchwyr y nwyddau ar werth ar ein stondin. Cawsant wybod am brosiect Malawi y Brifysgol ar stondin Jenny Pye, ac am brosiect ASHA ym Mangladesh gan ein ffrind Henny Hare. Cychwynwyd ASHA bum mlynedd ar hugain yn ôl gan chwaer Henny.

Bangladesh oedd ffocws y Big Brew eleni hefyd. Y gobaith gan **Transform Trade** oedd hel digon o arian i agor 100 o siopau cymunedol yng Ngogledd Orllewin Bangladesh. Bydd y brosiect yn rhoi hyfforddiant i wragedd i redeg y siop, a bydd y gwragedd i gyd yn gallu gwneud eu siopa eu hunain heb orfod dibynnu ar eu gwŷr fel cynt.

Buom yn gwerthu *‘briciau’* yn ystod y bore ac wedyn yn y capel er mwyn ceisio hel £350 i agor siop.

Mae’n dda cael dweud i ni gasglu £480!

Diolch yn fawr iawn i bawb gefnogodd y diwrnod ac am bob cyfraniad i’r prosiect gwerthfawr yma.

*Bydd y bore coffi a siop Masnach Deg nesaf*
*dydd Sadwrn Ebrill 6ed o 10 - 12 o’r gloch.*
*Mae croeso i bawb.*











FAIRTRADE
PROSIECT
FAIRTRADE
MALAWI PROJECT

## DOD I ADNABOD EIN HORGANYDDION

*(y drydedd ran)*

*Mis yma, tro*
*Valerie, Gwennant a Nia*
*ydy hi.*

Mi ddechreuodd Valerie gyfeilio pan oedd yn naw oed yn 1941 yng nghapel Horeb, Mynytho.

Dechreuodd Gwennant gyfeilio ar y piano yn yr Ysgoldy, sef un o bedair cangen Yr Hen Gapel Llanuwchlyn. Roedd hi tua deuddeg oed ar y pryd.
Mi wnaeth hi symud yn ei blaen yn ddiweddarach i gyfeilio ar yr organ.

Tua phymtheg oed oedd Nia pan ddechreuodd gyfeilio ar yr organ yn yr Ysgol Sul yng nghapel Judah Dolgellau. Aeth yn ei blaen wedyn i chwarae mewn oedfaon.

Hoff dôn Valerie ydy ‘**Maelor**’ gan John Hughes.

Hoff dôn Gwennant ydy ‘**Arwelfa**’ gan yr un cyfansoddwr.

Hoff dôn Nia ar y llaw arall ydy ‘**Tydi a Roddaist**’ gan frawd John Hughes sef Arwel Hughes.
Mae’n ddirgelwch sut y cafodd Arwel Hughes yr ysbrydoliaeth i gyfansoddi tôn mor arbennig, a hynny ar ddarn o bapur bychan tra’n aros am drên yng ngorsaf Amwythig. Mae plac bellach ar blatfform yn yr orsaf yn dynodi’r lle y cyfansoddwyd y dôn.

Roedd Arwel a John Hughes yn ymwelwyr cyson ar yr aelwyd yn Nolgellau am flynyddoedd lawer. Yn anffodus a hithau ddim ond yn blentyn ifanc ar y pryd, chafodd Nia mo’r cyfle i holi Arwel lle a sut cafodd o’r ysbrydoliaeth i gyfansoddi’r fath gampwaith.

Hoff emyn Valerie ydy ‘**Enaid gwan, paham yr ofni?**’ gan Elfed

Hoff emyn Gwennant ydy ‘**Tydi sy’n deilwng oll o’m cân**’ gan David Charles


Hoff emyn Nia ydy ‘**Tydi a roddaist**’ gan T Rowland Hughes.

Cred Valerie bod hi’n bwysig rhoi sylw i amgyffrediad dwfn yr emyn wrth gyfeilio gan geisio amlygu hynny yn y gerddoriaeth.
Wrth ganu’r piano, gellir cael rheolaeth ar y sain sy’n cael ei gynhyrchu, tra gyda’r organ rhaid gweithio ar y sain trwy ddefnyddio stops penodol.

Yn ôl Gwennant, rhaid tynnu’r gorau o’r canu cynulleidfaol, a chofio ystyr y geiriau wrth gyfeilio.

Mae Nia’n credu bod hi’n hollbwysig chwarae’r cordiau cywir, peidio boddi’r canu ond ar y llaw arall ceisio rhoi arweiniad clir i’r gynulleidfa o safbwynt tempo a theimlad.

Mae’n holl bwysig bod yr organydd yn cyfrannu at naws addolgar yr oedfa wrth gyfeilio.



# CYLCH TI a FI EMAUS

## DWY AWR I'W SBARIO ?

Ar ddiwedd tymor arall, diolch i bawb a fu'n helpu. Cafwyd tymor llwyddiannus iawn unwaith eto. Erbyn hyn mae 44 o blant wedi eu cofrestru ac ar gyfartaledd daeth 14 o blant i bob sesiwn.
Ar hyn o bryd, mae gennym lawer o fabanod a phlant ifanc iawn sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Yr hyn sy'n amlwg ydy gymaint y mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r Cylch. Cânt gyfle i gymdeithasu a sgwrsio dros baned.

Wrth gwrs, ni fyddai'n bosib cynnig hyn heb wirfoddolwyr. Oherwydd gwahanol amgylchiadau, mae rhai wedi penderfynu tynnu'n ôl, ac felly ar gyfer y tymor nesaf byddai'n braf cael rhagor o bobl i helpu.

Beth yn union sydd angen i wirfoddolwyr ei wneud? Yn syml, helpu'r arweinydd, sef Elin Owen, sy'n cael ei rhyddhau o'i gwaith yng Nghylch Meithrin Y Garnedd. Mae'n golygu dod erbyn 8.45 er mwyn helpu Elin i estyn yr offer, paratoi paned ac aros i glirio ar ddiwedd y sesiwn, sy'n gorffen am 10.45.

Os oes digon o wirfoddolwyr, mae'n golygu dwy awr dda y tymor!
Gan fod y rhieni'n bresennol, nid oes angen gwiriad DBS.

*Beth amdani? Dewch i helpu darparu gwasanaeth gwerthfawr i deuluoedd ifanc y ddinas.*
*Cysylltwch â mi os gwelwch yn dda os oes gennych chi ddiddordeb*
*neu os hoffech chi gael mwy o fanylion.* *Elen Lansdown (364843)*

BBC RADIO CYMRU

*PENODIAD*


*Llongyfarchiadau mawr i Gruffydd Eurig*
*ar gael ei benodi'n ymchwilydd*
*efo Radio Cymru yng Nghaerdydd.*
*Yn anffodus, mae Gruffydd wedi*
*cael damwain wrth chwarae rygbi*
*yn ddiweddar, ac wedi torri ei goes.*
*Gobeithio y bydd yn well yn fuan,*
*a phob hwyl iddo yn ei swydd newydd!*

## LLONGYFARCHIADAU!

Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Eryri a gynhaliwyd ym Mhenygroes yn ddiweddar.
Cafodd Cian gyntaf ar unawd dan 19 oed yn canu '*Twymyn y Môr*'.

Pob lwc i Cian yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn 2024 a gynhelir eleni ym Meifod, Powys rhwng Mai 27ain a Mehefin 1af.

## CYLCH DARLLEN EMAUS




Y llyfr ar gyfer ein cyfarfod nesaf bnawn Gwener Ebrill 5 fydd

**Siân Phillips**
gan Hywel Gwynfryn.

# ANFON EIN COFION A'N DYMUNIADAU GORAU

## CYDYMDEIMLO

**Anfonwn ein cydymdeimlad at Marian a Bryn Tomos ar farwolaeth Tad Marian sef Wil Evans, o Abergele a chyn hynny o Bandy Tudur. Roedd yn dad, taid a hen daid annwyl iawn, a chofiwn am y teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar.**

## DIOLCH

Hoffai Eirlys Owen sydd yng nghartref Plas Garnedd ddiolch o galon i aelodau Emaus am yr holl gardiau, y blodau a'r siocledi hyfryd a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd diweddar yn 90 oed.

Yn ôl ei merch Eleri, mae ei Mam yn gwerthfawrogi pob ymweliad ac yn diolch i'r rhai sydd yn dosbarthu'r Negesydd a'r deunyddiau eraill a hynny ers sawl blwyddyn bellach.

Roedd yn ddrwg gennym glywed bod Cian, mab Eleri Williams yn treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Rydym yn anfon ein cofion ato gan obeithio y bydd yn teimlo'n well yn fuan.

## DEWRDER

Rydym yn meddwl am nifer o'n haelodau sy'n mynd drwy driniaeth y dyddiau hyn a hynny yn gofyn dewrder a dycnwch rhyfeddol ganddyn nhw a'u teuluoedd.

Da ni hefyd yn meddwl yn aml am ein haelodau mewn cartrefi gofal sy'n wael eu hiechyd ac am y rhai sy'n gofalu'n ffyddlon amdanynt.

Bydded i chi deimlo cariad a nerth Duw yn eich cynnal un ac oll.

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at Carys Edwards, ei gŵr Marc a'u merched, Awen ac Elain. Bu farw cyfnither mam Carys, Mary Hughes, wedi salwch hir. Yn wreiddiol o Foelfre, roedd Mary wedi ymgartrefu ers rhai blynyddoedd yng Ngilfach Crwys, Penrhosgarnedd.**

Anfonwn ein cofion at Jane Roberts, sydd newydd dderbyn triniaeth ar ei llygad yn Ysbyty Gwynedd.
Dymuniadau gorau iddi am adferiad llwyr a buan.

---

**BORE COFFI BUGEILIAID STRYD BANGOR**

*Cynhelir bore coffi ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 27ain, ym Merea Newydd o 10 y bore tan hanner dydd er budd Bugeiliaid Stryd Bangor. Bydd stondin cacennau a bric-a-brac.*

**Croeso cynnes i bawb.** *Eleri*

# CORNEL POSAU GARETH

## ATEB I BOS MAWRTH 2024

### POS BAT A PHÊL

*Pris y bêl yw pum ceiniog.*

## POS EBRILL 2024

### POS CATHOD A LLYGOD



Mae 3 cath yn lladd
3 llygoden mewn 3 munud.
Mewn faint o amser
y mae100 cath
yn lladd 100 llygoden?

*Bydd yr ateb yn rhifyn Mai.*

## DATHLU DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MERCHED 2024

Ar nos Wener, Mawrth 6ed, eleni, trefnwyd parti i ddathlu *Diwrnod Rhyngwladol y Merched* gan **Bobl i Bobl** yn festri Emaus. Daeth nifer dda o ferched *(a rhai o'u plant)* ynghyd, yn ffoaduriaid ac yn wirfoddolwyr. Roedd pawb wedi dod a bwyd i rannu a diodydd meddal gwahanol i yfed. Cafwyd amser braf yn cymdeithasu gyda'n gilydd a mwynhau'r seigiau gwahanol. Erbyn diwedd y noson roedd rhywfaint o'r gwragedd yn dawnsio hyd yn oed!

*Eleri Ll Jones*



Y byrddau wedi eu gosod yn ddeniadol ar gyfer y parti.



Llond bwrdd o fwyd blasus!

# BLODAU MIS EBRILL

*Diolch i Helen Owen ac Ann Roberts am ofalu fod blodau ar gyfer Mis Mawrth.*

**RHODDWYR BLODAU MIS EBRILL**


Ebrill 7 a 14 Menna Roberts

Ebrill 21 a 28 Ann a Glenda Roberts

*Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henw ar gyfer rhoi blodau yn ystod 2024. Mae sawl bwlch ar y rhestr ac fe fyddwn yn gwerthfawrogi petai mwy yn cynnig rhoi blodau yn ystod y flwyddyn. Mae croeso i chi gysylltu gyda Kath neu Meriel fel bo'r rhestr yn cael ei llenwi.*

Diolch
Kath a Meriel

Kath Jones *01248 353313*
Meriel *01248 352205* neu *merielparry@gmail.com*




**DYMA'R RHESTR AM Y FLWYDDYN**
**MAE'R SULIAU SYDD HEB NEB YN RHOI BLODAU WEDI EU NODI FEL HYN** *

| | | | |
|---|---|---|---|
| *IONAWR*<br>7 Branwen Jarvis<br>14 Branwen Jarvis<br>21 Branwen Niclas<br>28 Branwen Niclas | *EBRILL*<br>7 Menna Roberts<br>14 Menna Roberts<br>21 Ann a Glenda Roberts<br>28 Ann a Glenda Roberts | *GORFFENNAF*<br>7 *<br>14 *<br>21 Sian Arwel<br>28 Sian Arwel | *HYDREF*<br>6 *<br>13 *<br>20 Elen Lansdown<br>27 Elen Lansdown |
| *CHWEFROR*<br>4 Jennifer Thomas<br>11 JenniferThomas<br>18 Catrin Evans<br>25 Catrin Evans | *MAI*<br>5 Iona Wyn Jones<br>12 Iona Wyn Jones<br>19 Mair Gray<br>26 Mair Gray | *AWST*<br>4 *<br>11 *<br>18 *<br>26 * | *TACHWEDD*<br>3 Sian a Beth<br>10 Sian a Beth<br>17 *<br>24 * |
| *MAWRTH*<br>3 Helen Owen<br>10 Helen Owen<br>17 Ann Roberts<br>24 Ann Roberts<br>31 Ann Roberts | *MEHEFIN*<br>2 Sian Arwel<br>9 Sian Arwel<br>16 *<br>23 *<br>30 * | *MEDI*<br>1 Delyth Murphy<br>8 Delyth Murphy<br>15 *<br>22 *<br>29 * | *RHAGFYR*<br>1 Eleri a Dilwen<br>8 Eleri a Dilwen<br>15 *<br>26 *<br>29 * |

**Os y dymunwch ychwanegu enw i'r rhestr rhoddwyr blodau cysylltwch â:**

*Kath Jones 01248 353313*
neu
*Meriel Parry 01248 352205* neu *merielparry@gmail.com*

# ADRODDIAD SUL BMS

Cawsom  wasanaeth hyfryd yng nghwmni Dr Menna Machreth pryd rhoddwyd diweddariad ar waith Cymdeithas BMS World Mission.
Mae rhannu'r efengyl a lledaenu cariad Duw yn greiddiol i waith y BMS a hynny drwy greu a meithrin partneriaethau mewn tua 35 o wledydd ar draws pedwar cyfandir.
Rhoir pwyslais ar bump agwedd :-

**CARIAD**

Mynd i'r mannau o'r byd lle nad ydynt wedi clywed am Iesu a chreu partneriaethau lleol.

**CALON**

Mynd i blannu eglwysi a thyfu'r efengyl, hyfforddi a chefnogi'r arweinwyr lleol.

**GOBAITH**

Taclo anghyfiawnder a dioddefaint pobl ddifreintiedig mewn lleodd anwadal.
Rhoi cyfleodd i rai nad oes ganddynt gyfle a'r rhai wedi'i heithrio.

**CYDRADDOLDEB RHYWEDD**

Gwarchod merched rhag trais o unrhyw fath, sicrhau eu bod yn cael addysg a rhwystro rhag eu gorfodi i briodi pan yn blant.  Dysgu bechgyn sut i barchu a gwerthfawrogi merched.

**HELP**

Cyd-gerdded gyda'r rhai sydd wedi eu gorfodi i adael eu cartref, eu gwlad a'u pobl oherwydd rhyfel, trychinebau ayyb.  Mae BMS yn sefydlu partneriaethau mewn gwersylloedd ffoaduriaid e.e. Lesbos.

*Gwelwyd fideo o'r gwaith sydd yn mynd ymlaen mewn gwahanol rannau o'r byd.*
*Hyd yma, casglwyd £835.*
*Anfonir ymlaen ar ôl y Pasg, felly mae amser i dderbyn unrhyw rodd mewn arian neu siec (yn daladwy i BMS World Mission) tan y Sul cyntaf wedi'r Pasg.*

Gyda diolch am eich haelioni arferol.

*Sian Arwel Davies*

*(HYSBYSIAD)*

## CYFARFOD BLYNYDDOL SENANA CYMRU

**Cynhelir ar Mai 1af yn Y Bontnewydd ar Wy i ddechrau am 1.30 yp**
**Tocynnau te ar gael am £5**

*Mae bws mini gyda gyrrwr ar gael i fynd yn ôl a 'mlaen mewn diwrnod gan y bydd y gweithgareddau yn dod i ben am 6yh.*

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD - CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD - ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243